Tîm Hawliau Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru
Welsh Government Older People's Rights Team

Cymru o Blaid Pobl Hŷn

Diweddariad ar ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n heneiddio

Age Friendly Wales

An update on our Strategy for an Ageing Society



Ebrill 2022 - April 2022

Croeso i ail rifyn ein diweddariad ar Gymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio.

Gobeithio'ch bod wedi mwynhau eich gwyliau Pasg. Yn y rhifyn hwn cewch yr wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

1. Cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio.
2. £1.1 miliwn i awdurdodau lleol i gefnogi gwaith i greu Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn
3. Diweddariad am yr Ymgyrch Hawliau Pobl Hŷn, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a roddir ar waith ar y cyd ag Age Cymru
4. Newyddion cyffrous am weithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau

Welcome to the second edition of our update on Age Friendly Wales: Our Strategy for an Ageing Society.

We hope you've enjoyed your Easter break. In this edition you'll get the latest information on:

1. Publication of the Delivery Plan for Age Friendly Wales: Our Strategy for an Ageing Society.
2. £1.1 million for local authorities to support work to become Age Friendly Communities
3. An update on the Older People's Rights Campaign, funded by Welsh Government and delivered in partnership with Age Cymru
4. Exciting news about intergenerational activities

1. Cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni

Ar 20 Ebrill, cyhoeddodd Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, y cynllun cyflawni ar gyfer Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio.

Ysgrifennwyd y cynllun cyflawni mewn partneriaeth â phobl hŷn a'u cynrychiolwyr. Mae'n nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wireddu gweledigaeth y strategaeth.

1. Publishing the Delivery Plan

On 20 April, Julie Morgan, Deputy Minister for Social Services published the delivery plan for Age Friendly Wales: Our Strategy for an Ageing Society.

Written in partnership with older people and their representatives, the delivery plan sets out the steps Welsh Government will take to achieve the vision set out in the strategy.

Cymru o Blaid Pobl Hŷn - diweddariad Ebrill
Age Friendly Wales - April update

Nod y camau yn y cynllun cyflawni yw codi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn, mynd i'r afael â thlodi sy'n gysylltiedig ag oedran, gwella gwasanaethau a mannau cyhoeddus, a lleihau unigrwydd drwy hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli fel ffordd o annog mwy o bobl i ymgysylltu â'u cymunedau. Mae camau penodol yn cynnwys:

- **cefnogi pobl hŷn i fod yn hyderus yn ddigidol;**
- **cefnogi busnesau i fod yn fwy cynhwysol o ran oedran ac i gadw, ailhyfforddi a recriwtio gweithwyr hŷn;**
- **ariannu gwelliannau i seilwaith bysiau er mwyn sicrhau bod mwy o safleoedd bysiau a chyfnewidfeydd allweddol yn gwbl hygyrch i bawb;**
- **mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni;**
- **cynyddu nifer y bobl sy'n hawlio'r credyd pensiwn.**

Dywedodd Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol:

"Rydym am greu Cymru lle mae pawb yn edrych ymlaen at fynd yn hŷn a lle caiff oedran ei ddathlu. Ein Gweledigaeth yw cael Cymru o blaid pobl hŷn sy'n cefnogi pawb o bob oed i fyw a heneiddio'n dda. Yn rhy aml, mae heneiddio'n cael ei gysylltu â salwch a dirywiad ac mae cyfraniadau pobl hŷn i gymdeithas yn cael eu hanwybyddu.

"O sicrhau bod tai yn cefnogi pobl i heneiddio'n dda, i greu cyfleoedd i aros yn iach ac yn egnïol, mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn, i wrthsefyll rhagfarn ar sail oedran a gwireddu ein gweledigaeth i greu Cymru o blaid pobl hŷn."

Cliciwch YMA i ddarllen y cynllun cyflawni. Os hoffech gael copi mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynllun neu os hoffech ddysgu mwy am y strategaeth, mae croeso ichi gysylltu â ni.

Actions in the delivery plan aim to raise awareness of older people's rights, tackle age related poverty, improve public services and spaces and reduce loneliness by promoting volunteering as a way to encourage more people to connect with their communities. Specific actions include:

- **Support for older people to become digitally confident;**
- **support for businesses to be more age-inclusive in retaining, retraining and recruiting older workers;**
- **funding improvements to bus infrastructure to ensure more stops and key interchanges are fully accessible to all;**
- **addressing fuel poverty and energy efficiency;**
- **increasing the take up of pension credit.**

The Deputy Minister for Social Services, Julie Morgan said:

"We want to create a Wales where everyone looks forward to growing older and age is celebrated. Our Vision is for an age friendly Wales that supports people of all ages to live and age well. Too often getting older is linked to illness and decline and older people's contributions to society are overlooked.

"From making sure housing supports people to age well, to creating opportunities to keep healthy and active, this plan outlines how we will work across government and with key partners, including the Older People's Commissioner, to reject ageism and realise our vision of an age friendly Wales."

Click HERE to read the delivery plan. If you'd like to receive a copy in a different format, have any questions about the plan or would like to learn more about the strategy then please feel free to contact us.

2.

Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn
Age Friendly Communities

Mae'r Dirprwy Weinidog yn falch o barhau â'i chefnogaeth drwy gynnig £1.1 miliwn i awdurdodau lleol wrth iddynt weithio tuag at ddod yn rhan o Rwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd o Gymunedau a Dinasoedd o Blaid Pobl Hŷn. Mae £50,000 ar gael i bob awdurdod i ariannu swydd benodol i hyrwyddo polisïau a gwasanaethau sy'n ystyriol o oedran ac i ymgysylltu'n well â phobl hŷn.

Bydd y cyllid dilynol hwn yn helpu'r awdurdodau i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae awdurdodau lleol wrthi'n llunio cynllun gweithredu sy'n ystyried yr holl wahanol agweddau sydd angen eu cyfuno i greu cymuned o blaid pobl hŷn. Gallai'r rhain gynnwys tai neu gysylltiadau trafnidiaeth priodol a chyfleusterau fel toiledau cyhoeddus a mannau awyr agored, a chyfleoedd i wirfoddoli a chymryd rhan yn y gymuned.

Cyngor Caerdydd yw'r awdurdod cyntaf yng Nghymru i ymuno â rhwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd o Gymunedau a Dinasoedd o Blaid Pobl Hŷn. Gallwch ymweld â'u gwefan Caerdydd Oed-Gyfeillgar drwy glicio yma

Mae Tîm Hawliau Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r awdurdodau lleol drwy gydlynu rhwydwaith ar gyfer pob arweinydd lleol. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar **14 Mehefin**.

Mae tîm y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cynnig cyngor mentora ar lefel leol a grŵp llywio cenedlaethol i helpu i sbarduno newid drwy gydweithio.

The Deputy Minister is delighted to be continuing her support by offering £1.1million to local authorities as they work towards becoming part of the World Health Organisation (WHO) Global Network of Age-friendly Cities and Communities. £50,000 is being offered to each authority to fund a dedicated post to champion age friendly policies and services and improve engagement with older people.

This follow on funding will help the authorities to build on the foundations that were laid in previous years.

Local authorities are working towards setting out an action plan which considers all the different aspects that need to come together to create an age friendly community. These might include appropriate housing or transport links, the provision of amenities such as public toilets and outdoor spaces, through to opportunities to volunteer and take part in the community.

Cardiff Council have become the first authority in Wales to join the WHO network of age friendly cities and communities. You can visit their Age Friendly Cardiff website by clicking here

The Older People's Rights Team at Welsh Government are supporting the local authorities by coordinating a network for all the local leads. The next meeting will be **14 June.**

The Older People's Commissioner's team is offering mentoring advice at a local level and a national steering group to help drive change through collaboration.

3.

Prosiect Hawliau Dynol
Human Rights Project

Dechreuodd Prosiect Hawliau Dynol Age Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr, a'i nod yw codi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn yng Nghymru. Bydd y prosiect ar waith am chwe mis, gan orffen ganol mis Mehefin.

Bydd ffilm fer sy'n cynnwys ystod amrywiol o bobl hŷn yn siarad am hawliau dynol a sut maent yn berthnasol i'w bywydau o ddydd i ddydd yn cael ei chyhoeddi'n fuan. Mae'n argoeli i fod yn ffilm ddiddorol iawn, gan ymdrin â phynciau fel toiledau cyhoeddus yn y gymuned, gwahaniaethu, yr hawl i weithio os ydych yn dewis ac allgáu digidol, yn ogystal â llawer o bynciau eraill. Mae'r ffilm hon wrthi'n cael ei hanimeiddio gan yr artistiaid a'r hwyluswyr celfyddydau cymunedol, Jon Ratigan ac Emma Prentice, a bydd yn cael ei chyflwyno gan yr Athro John Williams a'i rhannu mor eang â phosibl.

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n hyrwyddo'r llyfrynnau, Sicrhau bod Hawliau'n Gweithio i Bobl Hŷn. Lluniwyd mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru, pobl hŷn a'u cynrychiolwyr. Bydd erthyglau ar-lein ac ar bapur yn ymddangos yn fuan yn y cyfryngau Cymraeg a Saesneg ledled Cymru. Mae gennym stoc fawr o lyfrynnau yn swyddfa Age Cymru, felly rhowch wybod inni os hoffech inni anfon copi atoch. Rydym hefyd yn cynnal ymgyrch hysbysebu ychwanegol, gan dargedu bagiau presgripsiwn, bysiau a hysbysebu mewn ysbytai.

Rydym wedi cwblhau drafft o becyn cymorth sy'n bwriadu galluogi pobl hŷn a'u heiriolwyr i siarad yn hyderus am hawliau dynol a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol wrth herio sefydliadau.

Funded by Welsh Government, the Human Rights Project at Age Cymru started in December 2021 and is aiming to raise awareness of the rights of older people in Wales. The project will run for six months, finishing in mid-June 2022.

A short film featuring a varied range of older people talking about human rights and how they relate to their day-to-day-lives will be published shortly. It's shaping up to be a very interesting film, covering topics such as public toilets in the community, discrimination, the right to work if you choose to and digital exclusion, as well as many other topics. This film is currently being animated by artist and community arts facilitators, Jon Ratigan and Emma Prentice, and will be introduced by Professor John Williams and shared as widely as possible.

We are currently in the process of promoting the booklets, Making Rights Work for Older People which were coproduced in partnership with Social Care Wales, Welsh Government, older people and their representatives. Online and print articles will shortly appear in both Welsh and English language media outlets across Wales. We have a large stock of booklets in the Age Cymru office, so do let us know if you would like us to send a copy to you. We will also run an additional advertising campaign, targeting prescription bags, buses, and hospital advertising.

We have completed a draft of a toolkit which intends to equip older people and their advocates to talk confidently about human rights and to take a human rights-based approach when challenging organisations.

Mae'r Tîm Ymgysylltu wrthi'n trefnu digwyddiadau wyneb yn wyneb gyda phobl hŷn mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru. Bydd y digwyddiadau hyn ymlaen rhwng mis Mai a mis Gorffennaf, a byddwn yn siarad am hawliau, gofalwyr a gwasanaethau Age Cymru yn fwy cyffredinol.

Byddai'n wych clywed gennych os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan. E-bostiwch: humanrights@agecymru.org.uk.

Rachel Dawson, Cydlynydd Cymorth Ymgysylltu, Age Cymru

The Engagement Team is currently in the process of booking a range of venues across Wales for face-to-face events with older people. These events will run from May to July, and we will be speaking about rights, carers, and Age Cymru's services more generally.

It would be fantastic to hear from you if you are interested in getting involved. Please email: humanrights@agecymru.org.uk.

Rachel Dawson, Engagement Support Coordinator, Age Cymru

4.

Pontio'r Cenedlaethau
Intergenerational Practice

25 Ebrill i 1 Mai eleni yw Wythnos Ryngwladol Pontio'r Cenedlaethau sy'n gyfle i sefydliadau, ysgolion a chartrefi gofal ar draws y byd ddod at ei gilydd i ddathlu pwysigrwydd dod â chenedlaethau ynghyd.

Bwriad 'pontio'r cenedlaethau' yw creu cysylltiadau newydd rhwng plant a phobl o bob oedran. Bydd hyn yn cynyddu parch a dealltwriaeth rhwng y cenedlaethau ac yn arwain at gymunedau cryfach.

Yn ystod yr wythnos mae sawl sefydliad ar draws Cymru wedi trefnu digwyddiadau wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers dros ddwy flynedd. Gobeithiwn fedru ailafael mewn rhai prosiectau ond hefyd manteisio ar y cyfle i sefydlu cysylltiadau pontio'r cenedlaethau newydd. Cynhaliwyd hefyd sesiynau ar -lein yn ystod yr wythnos, a bydd rhwydwaith pontio'r cenedlaethau hefyd yn trefnu eu cyfarfod nesaf ym mis Mehefin.

Lansiwyd cystadleuaeth ar y cyd gyda CADR, Comisiynydd Pobl Hŷn a sawl partner arall o'r Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Undod rhwng y Cenedlaethau.

25th April to 1st May is International Intergenerational Week where organisations, schools and care homes across the world came together to celebrate the importance of bringing generations together.

The intention of 'intergenerational practice' is to create new links between children an people of all ages. This will increase respect and understanding between the generations and lead to stronger communities.

During the week several organisations across Wales have organised face-to-face events for the first time in over two years and we hope to be able to invigorate some projects but also take the opportunity to establish new intergenerational relationships. There were also online sessions during the week and an intergenerational network will also be organising their next meeting in June.

A joint competition has been launched with the Centre for Ageing and Dementia Research (CADR), the Older People's Commissioner and several other partners from the Cross Party

Cymru o Blaid Pobl Hŷn - diweddariad Ebrill
Age Friendly Wales - April update

Bydd enillwyr y gystadleuaeth yn ymddangos mewn calendr 2023 a hefyd mewn Amgueddfeydd ar draws Cymru yn ystod Tymor yr Hydref! Cofiwch gystadlu!

Yn ogystal, lansiodd Llywodraeth Cymru dudalen we a fydd yn 'man un stop' ar gyfer gweithgareddau, adnoddau a chysylltiadau pontio'r cenedlaethau yng Nghymru a hefyd gallwch fwynhau 6 fideo arbennig o brosiectau ar draws y wlad ar y wefan hon:

Pontio'r Cenedlaethau: dod â chenedlaethau at ei gilydd | LLYW.CYMRU

Edrychwn ymlaen i weld twf pontio'r cenedlaethau ar draws y wlad dros y flwyddyn nesaf!

Mirain Llwyd Roberts, Cydlynydd Pontio'r Cenedlaethau, Cyngor Gwynedd

Group on Intergenerational Unity and the winners of the competition will appear in calendar 2023 and also at Museum venues across Wales during the Autumn Term! Remember to compete!

In addition, the Welsh Government launched a website page which will be a 'one stop point' for intergenerational activities, resources and contacts in Wales and you can also enjoy 6 special videos of projects across the country on this website:

Intergenerational practice: bringing generations together | GOV.WALES

We look forward to seeing intergenerational growth across the country over the next year!

Mirain Llwyd Roberts, Bridging the Generations Coordinator, Gwynedd Council

Diolch

Thank you



Diolch am ddarllen y rhifyn hwn, mae croeso ichi gysylltu os hoffech ragor o wybodaeth.

E-bost: PoblHynaGofalwyr@llyw.cymru

Thank you for reading this edition, please contact us should you wish to find out more.

E-mail: OlderPeopleandCarers@gov.wales